Cyd-Bwyllgor Corfforedig
Gogledd Cymru
North Wales
Corporate Joint Committee

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

20 Tachwedd 2026

TEITL: Cynllun Cydraddoldeb Strategol

AWDUR: Alwen Williams, Prif Weithredwr
Dave Hole, Rheolwr Rhaglen Gweithredu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

Cyflwynir yr adroddiad hwn i'r CBC er mwyn i'r aelodau ystyried y Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft.

2. PENDERFYNIAD A GEISIR

Bod y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn **cymeradwyo'r** Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft a nodir yn Atodiad A ar gyfer ymgynghoriad, gyda'r drafft terfynol i'w gyflwyno'n ôl i'r CBC am benderfyniad ym mis Mawrth 2027.

3. RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

Mae'n ofyniad cyfreithiol i'r CBC i fabwysiadu polisïau penodol, gan gynnwys Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Y CBC ei hun sy'n parhau i fod â'r cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau, oni bai ei fod yn dewis dirprwyo penderfyniad mewn perthynas â pholisi.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig a sefydlwyd o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus o dan adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae swyddogion wedi paratoi Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft, fel y nodir yn Atodiad A, ac maent yn barod i ymgynghori arno gyda'r cynghorau cyfansoddol, pobl sydd â nodweddion gwarchodedig neu eu cynrychiolwyr, a rhanddeiliaid perthnasol eraill. Gofynnir i'r aelodau gymeradwyo'r Cynllun drafft ar gyfer ymgynghoriad. Yn dilyn hynny, bydd y fersiwn derfynol yn cael ei chyflwyno'n ôl i'r CBC i'w chymeradwyo yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2027.

5. GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU

Nid oes goblygiadau sylweddol o ran adnoddau i'r penderfyniad a geisir yn yr adroddiad. Bydd amser swyddogion yn cael ei ddefnyddio i fwrw ymlaen â'r cynllun, ond gellir ymgymryd â'r gwaith hwn fel rhan o weithgarwch busnes arferol.

6. YMGYNGHORIAD

Bydd ymgynghoriad â'r awdurdodau cyfansoddol ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft.

Mae'r dyletswyddau penodol sy'n berthnasol yng Nghymru, fel y'u nodir yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, yn cynnwys 'darpariaethau ymgysylltu'. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid cynnwys pobl sydd â nodweddion gwarchodedig,

neu eu cynrychiolwyr sydd â diddordeb yn y ffordd y mae'r sefydliad yn cyflawni ei swyddogaethau, wrth bennu amcanion cydraddoldeb a llunio Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Mae ymgysylltu ag aelodau tîm Uchelgais Gogledd Cymru a phartneriaid wedi bwydo i mewn i'r Cynllun drafft presennol.

Yn ddiweddar, mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi ymuno â Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru (NWPSEN) er mwyn cydweithio â phartneriaid rhanbarthol i hyrwyddo'r agenda cydraddoldeb ac i fynd i'r afael â materion annhegwch sy'n berthnasol ar draws y sector cyhoeddus ledled y Gogledd.

Mae tudalen Cydraddoldeb wedi'i chyhoeddi ar wefan Uchelgais Gogledd Cymru, sy'n cynnwys ffurflen ymgysylltu i gasglu safbwyntiau a thystiolaeth gan unigolion a grwpiau ynghylch y rhwystrau sy'n wynebu pobl sydd â nodweddion gwarchodedig mewn perthynas â swyddogaethau Uchelgais Gogledd Cymru, yn ogystal â chasglu awgrymiadau posibl ynghylch sut i hyrwyddo cydraddoldeb drwy ein gwaith.

Bydd crynodeb o'r ymgynghoriad a'r ymgysylltu a gynhaliwyd wrth bennu amcanion cydraddoldeb a llunio Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cael ei gynnwys yn nrafft terfynol y Cynllun.

8. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

Mae gan y CBC gyfrifoldeb statudol i fabwysiadu Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae'r penderfyniad a geisir yn yr adroddiad hwn yn cydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol y CBC. Bydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn nodi sut y bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wrth gyflawni ei swyddogaethau, yn ogystal â'r dyletswyddau penodol sy'n berthnasol yng Nghymru, fel y'u nodir yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

9. GOBLYGIADAU ARIANNOL

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol penodol yn deillio o'r adroddiad hwn.

10. ATODIADAU

ATODIAD A: Cynllun Cydraddoldeb Strategol Drafft

11. DOGFENNAU CEFNDIROL

Tudalen Cydraddoldeb ar wefan Uchelgais Gogledd Cymru:
https://uchelgaisgogledd.cymru/llywodraethu/polisiau/cydraddoldeb/

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

Mae paratoi Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac ymgynghori arno yn rhan o gyfrifoldebau statudol y CBC o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

Mae'r broses ymgynghori arfaethedig yn cynnig cyfle priodol i gasglu tystiolaeth a safbwyntiau gan yr awdurdodau cyfansoddol, pobl sydd â nodweddion gwarchodedig a rhanddeiliaid perthnasol eraill cyn cwblhau'r Cynllun a'r amcanion cydraddoldeb. Dylai

canlyniadau'r ymgysylltu hwnnw lywio'r Cynllun terfynol a gyflwynir yn ôl i'r CBC i'w fabwysiadu.

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

Rwyf yn fodlon na fydd cymeradwyo'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft am ymgynghoriad yn creu ymrwymiadau gwario ychwanegol. Rwyf yn cefnogi'r adroddiad, ac nid oes gennyf sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb ariannol.